OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1687

# Gorchymyn Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2015

## RHAN 3

Darpariaethau trosiannol

**Meini prawf cydnabod cyffredinol**

**5.**—(1) O 21 Medi 2015 ymlaen, mae'r meini prawf sydd wedi eu cynnwys yn y ddogfen a ddisgrifir ym mharagraff (2), yn ddarostyngedig i'r diwygiadau iddynt y darperir ar eu cyfer yn y ddogfen a ddisgrifir ym mharagraff (3), i gael eu trin fel y meini prawf cydnabod cyffredinol sydd wedi eu gosod a'u cyhoeddi gan Gymwysterau Cymru o dan adran 5 o'r Ddeddf.

(2) Y ddogfen yw'r un â'r rhif ISBN 978 0 7504 7250 2, o'r enw "Criteria for Recognition March 2012" a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2012 ac a gyhoeddir ar-lein ym mis Medi 2015 a'i enw'n cynnwys y cyfeirnod QWRD0001(**1**).

(3) Y ddogfen yw'r un o'r enw "Amendments to Criteria for Recognition" ac a gyhoeddir ar-lein ym mis Medi 2015 a'i enw'n cynnwys y cyfeirnod QWRD0002(**2**).

(**1**) Ar 21 Medi 2015, mae'r ddogfen hon ar gael yn www.cymwysteraucymru.org.
(**2**) Ar 21 Medi 2015, mae'r ddogfen hon ar gael yn www.cymwysteraucymru.org.